CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via VIDEO CONFERENCE, Dydd Mawrth, 18 Mai 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Rheolwr AD Strategol (CR), Arbenigwr AD – Tâl a Gwobrwyon (SV), Cydgysylltydd Busnes (SE), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP), Gweinyddwr Zoom a'r Gweddarllediad (RTJ), Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Geraint Lloyd-Williams a/ac Richard Mainon

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

3 PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gwahoddodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn gyngor 2021/2022.

Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid ethol y Cynghorydd Alan James yn Gadeirydd.
Eiliodd y Cynghorydd Emrys Wynne y cynnig.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, ac yn dilyn pleidlais, etholwyd y Cynghorydd Alan James yn unfrydol i fod yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2021/2022.

Rhoddodd y Cadeirydd oedd yn ymddeol araith fer, a bu'n adfyfyrio ynghylch ei gyfnod yn Gadeirydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn enwedig y 12 mis diwethaf oherwydd COVID-19.

Diolchodd i holl aelodau Cyngor Sir Ddinbych am eu cefnogaeth, eu hamynedd a'u cydweithrediad, ac am yr anrhydedd o gael cynrychioli'r sir o 2019 ymlaen. Nododd ei bod wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd cael cynrychioli'r sir fel Cadeirydd y Cyngor Sir ar dri achlysur dros y 25 mlynedd diwethaf.

Diolchodd i'w wraig, Nesta, ac i'w deulu am eu cefnogaeth. Diolchwyd hefyd i'r swyddogion, y staff cefnogi a'r cyfieithwyr am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y Gadair, a diolchodd yn benodol i Eleri Woolford (Rheolwr Cefnogi a Datblygu Aelodau), y ddiweddar Sue License, Sharon Walker, Steve Price a Rhodri Tomos. Diolchodd i Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd am ei arweiniad a'i gefnogaeth gyson. Diolchwyd hefyd i'r Cynghorydd Alan James am ei gefnogaeth a'i gymorth dros y ddwy flynedd diwethaf. Diolchwyd i'r Parchedig Ddoctor Rhodri Glyn a'r Parchedig Aneurin Owen, ac i'r Cynghorwyr Arwel Roberts, Emrys Wynne ac eraill a fu'n traddodi'r weddi pan oedd angen.

Roedd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol wedi codi cyfanswm o £1000 ar gyfer y ddwy elusen a ddewiswyd ganddo. Ar y pwynt hwn, darllenodd y Cadeirydd lythyr diolch gan Carol Pritchard Jones o Apêl Canser Gogledd Cymru am y rhodd o £500.

Ymunodd Tina Lew, Prif Weithredwr Prostate Cymru, â'r cyfarfod drwy fideogynadledda er mwyn diolch i'r Cadeirydd am y rhodd o £500.

Dymunodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol yn dda i'r Cadeirydd newydd ar gyfer y dyfodol. Cwblhaodd y Cynghorydd James y Datganiad Derbyn y Swydd.

Diolchodd y Cadeirydd newydd i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol a'i wraig am eu holl waith dros y ddwy flynedd diwethaf.

Enwodd y Cadeirydd newydd ei wraig, Wyn Mullen James, fel ei gydymaith.

Nododd mai'r elusennau yr oedd ef wedi eu dewis oedd:

- Cymorth Canser Macmillan
- Criw Bad Achub y Rhyl

Yr Hybarch Archddiacon Andy Grimwood fyddai Caplan y Cadeirydd newydd.

4 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Martyn Holland enw'r Cynghorydd Christine Marston fel Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn gyngor 2021/2022. Cyfeiriodd at brofiad helaeth y Cynghorydd Marston.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Rhys Thomas.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, ac yn dilyn pleidlais, etholwyd y Cynghorydd Christine Marston yn unfrydol i fod yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn gyngor 2021/2022.

Cwblhaodd yr Is-gadeirydd y Datganiad Derbyn y Swydd.

Talodd yr Arweinydd, Arweinwyr y Grwpiau a'r Aelodau deyrnged i waith y Cadeirydd a oedd yn ymddeol dros y ddwy flynedd diwethaf, a llongyfarchwyd y Cynghorwyr Alan James a Christine Marston ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd.

Ar y pwynt hwn (10.35am) cafwyd egwyl o 20 munud.
Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.55am.

5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

Ar y pwynt hwn, llongyfarchodd y Cadeirydd Mabon ap Gwynfor a Gareth Davies ar gael eu hethol i'r Senedd, a chydymdeimlodd â'r rhai eraill a safodd, ond nas etholwyd, yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

6 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol fod y cofnodion yn gywir.

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2021.

Materion yn Codi –
Tudalen 10, Eitem 4 – Cadarnhaodd y Cynghorydd Peter Scott fod Adroddiad Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch llifogydd 2020 bellach ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol fod y cofnodion yn gywir.

PENDERFYNWYD *derbyn a chadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021, a chyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2021, yn gofnodon cywir.*

7 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Martyn Holland y Rhybudd o Gynnig canlynol ar ran Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

'Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Fwrdd y Gyllideb, wrth wneud ei argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor ynghylch dyrannu cyfalaf yn y dyfodol, i roi ystyriaeth lawn i gynyddu dyraniad blynyddol Priffyrdd i £4m y flwyddyn o 2022/23 ymlaen.

Yn ychwanegol at hynny, byddem yn gofyn i'r Cyngor gefnogi, fel dyraniad cyntaf, unrhyw gyllid annisgwyl sydd heb ei ddyrannu a dderbyniwyd yn 2021/22 gyda'r bwriad o gynyddu cyllid cyfalaf Priffyrdd ar gyfer 2021/22.'

Rhoddodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, wybod i'r aelodau am y broses o bennu cynlluniau cyfalaf a gwaith Bwrdd y Gyllideb. Cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill y byddai Bwrdd y Gyllideb yn ystyried Achos Busnes Priffyrdd, a baratowyd yn gyfochrog â gwaith yn ystyried cynigion oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

O ran ail ran y Rhybudd o Gynnig, ni ddyrannwyd cyllid ymlaen llaw yn ystod y flwyddyn.
Cafwyd trafodaeth bellach, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd y Cynghorydd Paul Penlington a oedd y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, wedi bod yn rhan o drafodaethau am gyllid gyda Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2020 gan fod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer priffyrdd, sef £65miliwn ar draws Cymru.
  Cadarnhaodd y Cynghorydd Brian Jones ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ond nad oedd wedi derbyn unrhyw ateb.
- Mynegodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor ei bryder ynghylch materion yn ymwneud â'r gyllideb, ac eglurodd fod Grŵp Plaid Cymru wedi pleidleisio yn erbyn y gyllideb mewn cyfarfodydd blaenorol.
- Cadarnhaodd nifer o Aelodau eu bod yn derbyn cwynion cyson ynghylch cyflwr y ffyrdd yn y sir.

Cynigiodd y Cynghorydd Rhys Thomas y dylid cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig i Fwrdd y Gyllideb er mwyn galluogi Aelodau i dderbyn mwy o wybodaeth ynghylch y goblygiadau ariannol mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol.

Eiliwyd cynnig y Cynghorydd Thomas gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y byddai angen pleidleisio ar y diwygiad gan ei fod wedi'i gynnig a'i eilio.

Cafwyd pleidlais fel a ganlyn:

O blaid – 12
Yn erbyn – 25
Ymatal – 3

Felly, trechwyd y diwygiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Graham Timms y dylid rhannu'r Rhybudd o Gynnig yn ddwy adran gan fod rhan gyntaf y Cynnig ar Agenda Bwrdd y Gyllideb ar gyfer mis Mehefin. Roedd ail ran y Cynnig yn ddibynnol ar a fyddid yn derbyn y cyllid, a phryd. Nododd y Cynghorydd Timms y byddai ef yn bersonol yn pleidleisio yn erbyn ail ran y Cynnig.

Eiliwyd cynnig y Cynghorydd Timms gan y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y byddai angen pleidleisio ar y diwygiad gan ei fod wedi'i gynnig a'i eilio.

Cafwyd pleidlais fel a ganlyn:

O blaid – 20
Yn erbyn – 22
Ymatal – 0

Felly, trechwyd y diwygiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Martyn Holland y dylid derbyn y Rhybudd o Gynnig, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Peter Scott.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd wybod i'r aelodau y byddid yn cynnal pleidlais ar y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol.

Cafwyd pleidlais fel a ganlyn:

O blaid – 29
Yn erbyn – 9
Ymatal – 2

Felly:

PENDERFYNWYD *pasio'r Rhybudd o Gynnig.*

8 DATGANIAD POLISI TÂL 2021/22

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad, ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Adroddiad Datganiad ar Bolisi Tâl (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i'r Datganiad ar Bolisi Tâl a ddrafftiwyd yn unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac a oedd yn ymgorffori'r holl drefniadau tâl presennol ar gyfer y grwpiau gweithlu o fewn y Cyngor, yn cynnwys y Prif Swyddogion a'r gweithwyr ar y cyflogau isaf.

Mynegodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor ei siom fod dau bwynt cyflog o dan y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd fod gwaith yn cael ei wneud ar adroddiad i'r Cyngor ynghylch y Cyflog Byw Gwirioneddol. Roedd yr adroddiad yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol, ond nid oedd dyddiad wedi ei gadarnhau eto.

Roedd llawer o waith angen ei wneud unwaith y byddai'r holl wybodaeth ar gael, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus fod disgwyl i wybodaeth am yr hawliad tâl am y flwyddyn gael ei rhyddhau ac y byddai hynny'n cael effaith ariannol ar amrywiol gyfrifiadau.

Ataliwyd y trafodaethau cyflog cenedlaethol yn ystod ymgyrch etholiad y Senedd, ond roeddent wedi ailddechrau ers hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill fod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r Polisi Tâl, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Christine Marston.

Pleidleisiwyd a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn y Polisi Tâl.

PENDERFYNWYD *bod y Cyngor Llawn yn cytuno ag argymhelliad y Panel Tâl Uwch Arweinyddiaeth o ran newid y Polisi Tâl ar gyfer 2021/22 (copi yn Atodiad A).*

9 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU CRAFFU

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, Steve Price, adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Cyngor i ystyried newidiadau o ran cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r gofynion statudol, a bod yn ymwybodol o sut mae trefniadau cadeirio craffu a thaliadau cydnabyddiaeth yn gweithio.

Byddai angen enwebu Cadeirydd o blith y grwpiau Llafur neu Blaid Cymru gan na allai'r Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a oedd ar y Cabinet.

Enwebwyd y Cynghorydd Bob Murray gan y Cynghorydd Joan Butterfield, Arweinydd y Grŵp Llafur, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Cynhaliwyd pleidlais, ac etholwyd y Cynghorydd Bob Murray'n unfrydol i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD *bod y Cyngor yn:*

- *Penodi'r Cynghorydd Bob Murray yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn gyngor 2021/2022, ac yn*

- *ystyried y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol wrth ddyrannu seddi Pwyllgor.*

10 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU ARCHWILIO'R CYNGOR 2020/21

Cyflwynodd y Cynghorydd Graham Timms Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ar gyfer 2020/2021 (a gylchredwyd ymlaen llaw) ar eu gweithgareddau yn ystod 2020/2021.

Diben llunio'r Adroddiad Blynyddol oedd er mwyn cydymffurfio ag Adran 7.4.4 Cyfansoddiad y Cyngor oedd yn nodi bod yn rhaid i Bwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn am eu gwaith, a gwneud argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith at y dyfodol ac ar ddulliau gweithio diwygiedig os yw hynny'n briodol.

Cyflwynwyd ffurflenni ceisiadau craffu gan aelodau, swyddogion ac aelodau o'r cyhoedd, a'u rhoi i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, sy'n defnyddio'r meini prawf i benderfynu a yw eitem yn deilwng o sylw pwyllgor craffu.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu rôl bwysig y Pwyllgorau Craffu o ran cefnogi gwaith y Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol, yn cynnwys monitro darpariaeth y Cynllun yn rheolaidd.

Hefyd yn yr adroddiad blynyddol nodwyd gwybodaeth ynghylch y grwpiau tasg a gorffen sy'n gweithredu dan nawdd Pwyllgorau Craffu'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod ers pandemig COVID-19. Gan fod effeithiau'r pandemig yn treiddio i bob agwedd ar fywyd bob dydd roedd gofyn i holl raglenni gwaith y pwyllgorau craffu gael eu hadolygu i werthuso pa mor berthnasol ydynt yn Sir Ddinbych ar ôl y pandemig.

Diolchodd y Cynghorydd Timms a'r Aelodau eraill i'r Swyddog Craffu, Rhian Evans, am ei chefnogaeth a'i gwaith caled drwy gydol y flwyddyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Graham Timms y dylai'r Aelodau gymeradwyo'r adroddiad, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Hugh Irving.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad.

PENDERFYNWYD *bod y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2020/2021.*

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gan Gary Williams, y Swyddog Monitro.

Roedd Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, yn ymddiheuro na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Gan fod cyfarfodydd wedi eu hatal dros dro yn ystod cyfnod cynnar pandemig COVID-19, roedd yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o ddiwedd yr adroddiad blynyddol diwethaf, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2019, tan ddiwedd y flwyddyn gyngor gyfredol. Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, cyfarfu'r Pwyllgor ar chwe achlysur.

Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn i'r Cyngor Llawn er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am dueddiadau, materion yn ymwneud â chydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau'n gyffredinol ar draws y sir, a gwaith y Pwyllgor yn codi safonau ymddygiad ar lefel sirol ac ar lefel Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned.

Prif rôl y Pwyllgor Safonau oedd monitro cydymffurfiaeth â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

Nodwyd telerau aelodau annibynnol yn yr adroddiad, a nodwyd y byddai ail dymor y Cadeirydd, Ian Trigger, yn y swydd yn dod i ben ar ddyddiad etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y Pwyllgor yn ystyried gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau, ac i gydweithredu gyda'r Pwyllgor wrth gyflawni ei swyddogaethau. Byddai Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cael ei addasu er mwyn adlewyrchu'r rhwymedigaethau newydd hyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies y dylid derbyn yr adroddiad, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Christine Marston.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol y dylid cymeradwyo'r adroddiad.

PENDERFYNWYD *bod yr aelodau'n derbyn ac yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.*

12 PENODI AELODAU LLEYG Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad ynghylch Penodi Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Safonau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gan Gary Williams, y Swyddog Monitro.

Roedd angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn er mwyn penodi'r Aelodau Lleyg Annibynnol, Anne Mellor a Julia Hughes.

Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau 2001, fel y'u diwygiwyd, yn llywodraethu aelodaeth a thrafodion y Pwyllgor Safonau. Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau fod yn wleidyddol gytbwys.

Mae'n rhaid i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd bob amser fod yn aelodau lleyg annibynnol.

Dim ond am ddau dymor y gall aelod lleyg annibynnol wasanaethu yn y swydd. Felly, hwn fyddai tymor olaf yr aelodau lleyg yn y swydd pe baent yn cael eu hailbenodi.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Barry Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD *bod:*

- *Anne Mellor yn cael ei hailbenodi fel aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am ail dymor a fydd yn dod i ben ar 18 Mai 2022.*
- *Julia Hughes yn cael ei hailbenodi fel aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am ail dymor a fydd yn dod i ben ar 18 Mai 2022.*

13 ADOLYGIAD O RÔL Y PENNAETH GWASANAETH DROS ADDYSG A GWASANAETH PLANT

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Adolygiad o swydd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Phlant (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Gadawodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Phlant ei swydd ar 2 Awst 2020. Ers hynny, mae trefniadau pontio wedi bod yn eu lle er mwyn i adolygiad gael ei gynnal ynghylch y trefniant mwyaf priodol o ran rheoli'r gwasanaeth yn y dyfodol. Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Ionawr 2021 a chytunwyd mewn egwyddor i gadw un gwasanaeth ond recriwtio dau Bennaeth Gwasanaeth, gydag un yn arbenigo ym maes Addysg a'r llall yn arbenigo mewn Gwasanaethau Plant.

Roedd yr adroddiad yn cynnig gwneud newidiadau i strwythur yr Uwch Dîm Rheoli. Cyflwynwyd a thrafodwyd hyn yn yr Uwch Banel Cydnabyddiaeth Ariannol ar 22 Ebrill 2021. Dynodwyd y ddwy swydd yn rhai SLT2 ac felly byddai'r cynnig yn cynyddu costau. Byddai'r cynnydd cyffredinol yn y gyllideb yn oddeutu £60,000.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Emrys Wynne.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD *bod y Cyngor Llawn, yn unol ag argymhelliad y Panel Uwch Reoli yn cymeradwyo lefel y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y Pennaeth Addysg a Phennaeth y Gwasanaethau Plant yn unol â'r ailwerthusiad gan Grŵp Kornferry Hay.*

14 RECRIWTIO PRIF WEITHREDWR 2021

Cyflwynodd Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, Adroddiad Recriwtio Prif Weithredwr 2021 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i recriwtio Prif Weithredwr a chytuno ar y dull y dylid ei fabwysiadu yn ystod y broses recriwtio. Roedd hyn yn cynnwys y pecyn tâl a gynigir.

Roedd yn hanfodol cytuno ar y broses recriwtio i lenwi'r swydd hon a'i rhoi ar waith ar fyrder er mwyn sicrhau bod gan yr Awdurdod drefniadau rheoli a llywodraethu cadarn yn eu lle yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr ar 7 Ebrill 2021.

Cyfarfu'r Uwch Banel Tâl ar 22 Ebrill 2021 i adolygu'r pecyn tâl ar gyfer y Prif Weithredwr, a daeth y panel i'r casgliad fod y pecyn tâl yn briodol.

Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd Panel Penodiadau Arbennig yn cael ei sefydlu i fod yn gyfrifol am lunio rhestr fer o ymgeiswyr i gael eu cyfweld a'u hasesu drwy broses asesu a chyfweliadau. Bydd rhestr fer o ymgeiswyr addas wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn, a bydd pob ymgeisydd yn rhoi cyflwyniad 15 munud, a byddir yn cynnal trafodaeth 30 munud gyda phob ymgeisydd. Bydd y Cyngor Llawn wedyn yn penderfynu pwy y dylid ei benodi.

Cynigiodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies y dylid pleidleisio ar argymhellion 3.1 - 3.4 ar wahân, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler.

Cafwyd pleidlais fel a ganlyn:

O blaid – 8
Yn erbyn – 18
Ymatal - 1

Felly, cytunwyd y dylid pleidleisio un waith ar yr holl argymhellion.

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y dylid derbyn yr adroddiad, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Bobby Feeley.

Cynhaliwyd pleidlais, ac roedd mwyafrif yr aelodau o blaid derbyn yr adroddiad, ac ataliodd un aelod ei bleidlais.

PENDERFYNWYD *bod y Cyngor yn:*

(i) Cytuno i recriwtio Prif Weithredwr newydd
(ii) Cytuno ar y pecyn tâl arfaethedig
(iii) Cytuno ar y pecyn recriwtio
(iv) Cytuno gyda'r broses recriwtio.

15 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

PENDERFYNWYD *cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*